

YMCHWIL GYMDEITHASOL
RHIF: 12/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
28/02/2018

Trosolwg o ymagweddau at gaffael ail iaith ac arferion addysgol

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad

Diben yr adroddiad hwn yw cyfrannu i ddatblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer addysgu Cymraeg fel ail iaith yng Nghymru. Mae'n cyflwyno trosolwg beirniadol o ddulliau ac arferion addysgol addysgu ail iaith ac yn ystyried pa mor berthnasol ydynt i'r cyd-destun yng Nghymru.

2. Methodoleg

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n bedair prif adran, sy'n cwmpasu 1) nodau dysgu iaith, 2) y ffactorau seicolegol a chymdeithasol sy'n effeithio ar ddysgu iaith, 3) adolygiad o ymagweddau poblogaidd at addysgu a dulliau addysgu iaith, a thystiolaeth o'u heffeithiolrwydd, a 4) trosolwg o ystyriaethau pwysig eraill sy'n ymwneud ag addysgu iaith. Mae'r adroddiad yn cloi gyda rhestr o ffactorau allweddol i'w hystyried wrth lunio polisi'n ymwneud ag addysgu ail iaith.

3. Nodau dysgu iaith

Mae dysgu ail iaith yn ymwneud â datblygu chwe math o gymwyseddau:

1. Cymhwysedd ieithyddol: gwybodaeth am system a rheolau'r iaith;
2. Cymhwysedd cyfathrebol: y gallu i ddefnyddio'r iaith i gyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol;
3. Cymhwysedd rhyngweithredol (*Transactional competence*): y gallu i gyflawni pethau â'r iaith;
4. Cymhwysedd rhyngweithiol (*Interactional competence*): y gallu i reoli perthnasoedd a rhyngweithio cymdeithasol yn yr iaith darged;
5. Cymhwysedd symbolaidd: y gallu i werthfawrogi'r iaith darged ac i ddatblygu hunaniaeth fel defnyddiwr yr iaith;
6. Cymhwysedd trawsieithol: y gallu i wneud defnydd o amrywiaeth o adnoddau ieithyddol mewn cymdeithas amlieithog.

Wrth ddysgu iaith yn llwyddiannus, datblygir y cymwyseddau hyn gyda'i gilydd fel arfer ac maent yn cefnogi ac yn cyfoethogi ei gilydd. Oherwydd hyn, mae llawer o ymchwilwyr yn dadlau dros ymagweddu 'cyfannol', 'amlygymhwysedd' at addysgu iaith.

4. Ffactorau sy'n effeithio ar ddysgu iaith

Fel arfer rhennir y ffactorau sy'n effeithio ar ddysgu ail iaith yn ffactorau seicolegol a ffactorau cymdeithasol.

Mae'r ffactorau seicolegol yn cynnwys:

1. Ffactorau sy'n gysylltiedig â gwybyddiaeth: ffactorau sy'n gysylltiedig â sut caiff gwybodaeth ei storio a'i phrosesu yn y meddwl;
2. Ffactorau sy'n gysylltiedig ag ewyllys: ffactorau sy'n gysylltiedig â nodau a dyheadau pobl;
3. Ffactorau sy'n gysylltiedig â theimladau: ffactorau sy'n gysylltiedig ag emosiynau a theimladau pobl;
4. Ffactorau ymddygiadol: ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad cyson y mae pobl yn ei ddatblygu dros gyfnod.

Mae'r ffactorau cymdeithasol yn cynnwys:

1. Ffactorau cymdeithasol-ieithyddol: ffactorau sy'n ymwneud â'r amgylchedd ieithyddol lle dysgir yr ail iaith (L2);
2. Aelodaeth o grŵp a hunaniaeth: ffactorau sy'n ymwneud â sut mae dysgwyr yn aelodau o wahanol grwpiau cymdeithasol;
3. Agweddau at iaith ac ideoleg iaith: ffactorau sy'n gysylltiedig â sut mae pobl yn teimlo am yr iaith darged yng nghymuned y dysgwyr;
4. Bywiogrwydd ethnoieithyddol: y graddau y mae pobl yn cysylltu'r iaith â hunaniaeth ethnig neu ddiwylliannol ac yn dymuno ei chynnal.

5. Dulliau addysgu iaith, a thystiolaeth o'u heffeithiolrwydd

Mae astudiaethau wedi dangos bod amryw o ffurfiau ar addysgu L2 yn effeithiol wrth hyrwyddo caffael L2. Fodd bynnag, nid yw'r canfyddiadau'n ddigon pendant i nodi un ymagwedd neu ddull sy'n gweithio ar draws amrywiaeth o wahanol gyd-destunau. Serch hynny, mae ymchwilwyr wedi canfod bod ymagweddau effeithiol at addysgu L2 yn dangos nifer o nodweddion. Mae'r rhain yn cynnwys

1. mewnbwn dealladwy;
2. cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ac allbwn;
3. adborth;
4. asesu perthnasol a phriodol;
5. strategaethau sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol;
6. gwybodaeth fetaeithyddol;
7. ymwybyddiaeth fetawybyddol;
8. gwybodaeth bragmataidd;
9. ymgysylltu gan ddysgwyr.

Yn yr adroddiad hwn, asesir pedair ymagwedd boblogaidd at addysgu L2 gan gyfeirio at yr astudiaethau empirig sydd ar gael: 1) Addysgu iaith Cyfathrebol (*Communicative Language Teaching, CLT*); 2) Addysgu iaith ar sail Tasgau (*Task-based Language Teaching, TBLT*); 3) Dysgu Cynnwys ac iaith Integredig (*Content and Language Integrated Learning, CLIL*); a 4) Ymagweddau ôl-ddulliau at ddysgu iaith (*Post-method approaches to language teaching*). Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil i CLT yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd addysgu sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu.

1) *Addysgu iaith Cyfathrebol (CLT)*

Mae CLT yn canolbwyntio ar yr egwyddor o 'addysgu iaith fel dull cyfathrebu'. Mae canolbwynt ar natur *gydweithredol* gwneud ystyr. Fel arfer, y gallu i gyfathrebu'r ystyr y mae rhywun yn ei fwriadu sydd â'r flaenoriaeth dros fod yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil i CLT yn ffocysu ar effeithiolrwydd addysgu sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu. Canfuwyd bod perfformiad y dysgwyr mewn dosbarthiadau sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu'n gymysg. Daw ymchwilwyr i'r casgliad y dylai'r ffocws allweddol mewn ystafelloedd dosbarth CLT fod ar gael y *cydbwysedd* cywir rhwng gweithgareddau cyfathrebol a dadansoddol.

2) *Addysgu iaith ar sail Tasgau*

Wrth Addysgu iaith ar sail Tasgau, y nod yw rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â defnyddio iaith sy'n canolbwyntio ar ystyr ar ffurf tasgau. Drwy ymgysylltu â thasgau, mae sylw'r dysgwyr yn cael ei ffocysu ar ystyr a diben y cyfathrebu, a chânt adborth uniongyrchol gan y rhai y maent yn cyfathrebu â nhw ynghylch a ydynt yn deall yr ystyr a'r bwriad y mae'r dysgwr yn eu cyfleu. Yn gyffredinol dengys ymchwil fanteision Addysg iaith ar sail Tasgau wrth ddatblygu rhuglder, cywirdeb, ac annibyniaeth dysgwyr, a'u hymgysylltu gweithredol â'r dysgu. Ar yr un pryd, awgryma fod angen addasiadau gofalus i amgylchiadau a pholisïau iaith lleol er mwyn ei weithredu'n llwyddiannus.

3) *Dysgu Cynnwys ac iaith Integredig (CLIL)*

Mae Dysgu Cynnwys ac iaith Integredig yn cyfeirio at ymagweddau lle'r addysgir y cynnwys cwricwlaidd drwy gyfrwng yr iaith a ddysgir, fel sy'n digwydd mewn addysg ddwyieithog neu raglenni 'trochi'. Yn y rhan fwyaf o'r cyd-destunau lle y'i defnyddir, nid yw'r iaith darged yn un y mae'r dysgwyr yn debygol o ddod ar ei thraws y tu allan i'r ysgol. Mae astudiaethau a edrychodd ar effeithiolrwydd Dysgu Cynnwys ac iaith Integredig wedi awgrymu y gall arwain at enillion cymedrol i uchel o ran hyffedredd yn y tymor hir heb beryglu meistrolaeth y dysgwyr ar y cynnwys academaidd. Dangoswyd bod yr enillion mwyaf ym meysydd geirfa a chynhyrchu llafar. Ar yr un pryd, nodwyd anawsterau wrth weithredu rhaglenni CLIL, yn enwedig ym maes hyfforddiant athrawon. Defnyddiwyd yr ymagwedd hon yn helaeth wrth addysgu Cymraeg gyda pheth llwyddiant wedi'i ddogfennu.

4) *Ymagweddau ôl-ddulliau at ddysgu iaith*

Yn ddiweddar mae cynllunwyr cwricwla ac athrawon iaith wedi bod yn symud o'r syniad fod un dull 'cywir' o addysgu iaith, ac maent wedi dod i'r casgliad mai'r ymagwedd fwyaf effeithiol at addysgu iaith yw defnyddio cyfuniad o ddulliau. Un ymagwedd sydd wedi datblygu o'r ffordd hon o feddwl yw'r 'ymagwedd ecolegol' at addysgu iaith, sy'n dadlau dros brofiadau addysgol creadigol a gweithgareddau dysgu sy'n gallu deffro annibyniaeth dysgwyr a chynnig cyfleoedd iddynt weithio fel aelodau o gymunedau dysgu ar brosiectau heriol. Gelwir ymagwedd boblogaidd arall yn 'bragmatiaeth egwyddorol', sy'n canolbwyntio ar alluogi athrawon i arbrofi â gwahanol arferion addysgol, i'w gwerthuso ac i'w dadansoddi yn eu cyd-destunau lleol.

6. Elfennau pwysig eraill o addysgu ail iaith

Mae dysgu L2 yn llwyddiannus yn bosibl yn unig os yw wedi'i gefnogi gan gwricwlwm effeithiol a gynlluniwyd yn dda ac sy'n ystyried y maes llafur, y strategaethau asesu a'r ddarpariaeth hyfforddiant athrawon yn ofalus.

1) *Y maes llafur*

Dylai dadansoddiad o anghenion y dysgwyr lywio'r gwaith o ddylunio'r maes llafur. Yr ystyriaethau allweddol yw'r hyn y mae'r dysgwyr eisiau ei wneud gyda'r iaith y maent yn ei dysgu, a ydynt yn mynd i'w defnyddio wrth ysgrifennu, wrth siarad, neu yn y ddau fodd, a gaiff ei defnyddio er mwyn cyfathrebu mewn cyd-destunau teuluol, cymdeithasol, addysgol neu gyflogaeth, a pha ddisgwyliadau a safonau sydd ar gyfer defnyddio'r iaith yn y gwahanol gyd-destunau hyn.

2) *Asesu*

Nid yw'n bosibl cyflwyno dull addysgu L2 llwyddiannus heb strategaeth asesu sydd wedi'i llunio a'i gweithredu'n ofalus. Mae asesu'n arbennig o bwysig gan ei fod yn effeithio'n uniongyrchol ar yr hyn y mae athrawon a dysgwyr yn ei wneud yn y dosbarth. Hefyd gall effeithio ar agweddau eraill ar fywydau dysgwyr. Gall asesu fod ar ffurfiau crynodol, ffurfiannol a dynamig. Er bod asesu crynodol yn ddefnyddiol er mwyn mesur cyrhaeddiad a dilyniant, mae asesu ffurfiannol yn ffordd ddefnyddiol o gasglu gwybodaeth am yr hyn y mae dysgwyr yn ei wybod, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gyflawni'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae asesu dynamig yn gysyniad mwy diweddar sy'n cysylltu'r asesu â'r addysgu drwy ryngweithio a chydweithredu rhwng dysgwyr ac athrawon.

3) *Hyfforddiant Athrawon*

Mae ymagwedd wybodus at addysgu ac asesu iaith yn gofyn am raglen gefnogol i addysgu athrawon iaith. Dylai honno fod wedi'i llywio gan ddamcaniaeth feirniadol ac addysgeg L2 feirniadol, dylai hyrwyddo meddwl adfyfyriol am bolisi ac arferion, a galluogi athrawon i ddod yn ymarferwyr proffesiynol annibynnol.

7. Casgliadau a Phwyntiau Allweddol i'w Hystyried

Casgliadau

1. Mae dysgu iaith llwyddiannus yn gofyn am *nifer o gymwyseddau* gan gynnwys rhai ieithyddol, cyfathrebol, rhyngweithredol, rhyngweithiol, symbolaidd a thrawsieithol.
2. Rhaid i raglenni addysgu llwyddiannus ystyried gwahaniaethau unigol rhwng dysgwyr a'r ffactorau cymdeithasol a all ddylanwadu ar eu dysgu fel statws yr ail iaith lle maent yn byw a'u cyfleoedd i'w defnyddio yn eu bywydau bob dydd.
3. Nid oes tystiolaeth fod unrhyw un o'r ymagweddau/dulliau cyffredin o addysgu iaith y gwneir arolwg ohonynt yma'n amlwg yn well na'r lleill, a'r duedd gyfredol ym maes addysgu iaith yw cyfuno'r dulliau i fodloni'r amgylchiadau lleol.
4. Mae gan Addysgu Iaith ar sail Tasgau a Dysgu Cynnwys ac Iaith Integredig sylfeini empirig cadarn i gefnogi eu heffeithiolrwydd.
5. Mae Addysgu Iaith ar sail Tasgau yn enwedig wedi dangos llwyddiant wrth ddatblygu cymhwysedd rhyngweithredol dysgwyr.
6. Dylid integreiddio pa bynnag ymagwedd/dull a ddefnyddir mewn maes llafur sydd wedi'i gynllunio'n dda ac wedi'i gefnogi gan dargedau eglur a dulliau asesu cadarn.
7. Dylid mapio'r dilyniant a'r cyrhaeddiad yn ofalus yn erbyn anghenion dysgwyr a dylid defnyddio disgrifyddion iaith eglur ar ddiwedd pob lefel o hyfedredd.
8. Rhaid i raglen addysgu iaith llwyddiannus gael ei chefnogi gan ddarpariaeth hyfforddiant athrawon wedi'i dylunio'n dda, a honno'n hyrwyddo annibyniaeth yr athrawon, eu gallu i adfyfyrio, ac yn eu grymuso.

Pwyntiau Allweddol i'w Hystyried

1. Ystyried *cymhwysedd rhyngweithredol* wedi'i integreiddio â mathau eraill o gymwyseddau a'i addysgu a'i brofi mewn cyd-destun cyfathrebu ystyrion.

2. Ystyried defnyddio rhagor o Addysg Iaith ar sail Tasgau ac ymgysylltu dysgwyr â phrosiectau ystyrion sy'n gysylltiedig â'u diddordebau ac â realiti eu defnydd o'r iaith y tu allan i'r ysgol.
3. Addysgir y Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau ledled y wlad, ac efallai y bydd gwahanol ymagweddau/dulliau addysgu'n fwy neu'n llai addas i wahanol gyd-destunau.
4. Ystyried nid yn unig y gwerth o ran addysg a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â dysgu Cymraeg, ond hefyd y gwerthoedd cymdeithasol, diwylliannol a symbolaidd sy'n gysylltiedig â hi, a rhoi sylw i'r rhain wrth lunio polisi ac wrth addysgu.
5. Gwneud rhagor o ymchwil ar a) anghenion gwahanol fathau o ddysgwyr, b) effeithiolrwydd gwahanol dulliau dysgu mewn cyd-destunau penodol ledled y wlad, c) y ffyrdd gorau o asesu gwahanol gymwyseddau, ch) y ffyrdd gorau o hyfforddi athrawon ar gyfer gwahanol gyd-destunau, a d) y ffordd orau o ysgogi dysgwyr i ddysgu Cymraeg.
6. Buddsoddi mewn hyrwyddo'r Gymraeg y tu allan i gyd-destunau addysgol mewn ffyrdd sy'n ddeniadol ac yn berthnasol i bobl ifanc, drwy, er enghraifft, y diwylliant poblogaidd a llwyfannau ar gyfer cyfathrebu digidol.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Tavakoli, P. a Jones, R. *Trosolwg o ymagweddau at gaffael ail iaith ac arferion addysgol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru rhif adroddiad 12/2018

Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/overview-approaches-second-language-acquisition-instructional-practices/?lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Dr Catrin Redknap
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: catrin.redknap@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78903-487-5